

Wylfa Newydd

**Adroddiad ar yr Effaith Leol**

Pennod 13: Ansawdd Aer

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS: EN010007

**Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol**

## 1.0 Ansawdd Aer

### 1.1 Cyd-destun

1.1.1 Mae'r bennod hon yn yr Asesiad Effaith Lleol yn nodi sut y gallai adeiladu, gweithredu a datgomiynu Prosiect Wylfa Newydd effeithio ar ansawdd aer lleol, gan gynnwys llwch ac aroglau. Mae CSYM yn cadarnhau mai prif ystyriaeth y bennod hon fydd yr effeithiau posibl o ran ansawdd aer a llwch ar y derbynyddion dynol sy'n cynnwys eiddo preswyl, ysgolion, cartrefi gofal, mannau hamdden a Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan gynnwys llwybrau troed. O ran cyngori am effeithiau ar gynefinoedd ac ecosystemau, byddem yn cyfeirio'r Awdurdod Archwilio at sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

1.1.2 Mae Horizon wedi cyhoeddi'r asesiad o'r effeithiau ar ansawdd aer yn y dogfennau ymgaisio DCO canlynol y mae CSYM wedi'u hadolygu:

- a) *6.2.5 ES Cyfrol B – Cyflwyniad i'r asesiadau amgylcheddol B5 Ansawdd Aer<sup>1</sup>*
- b) *6.2.18 ES Cyfrol B – Cyflwyniad i'r asesiadau amgylcheddol App B5-1 – Adroddiad Crynodeb Data Gwaelodlin – ansawdd aer<sup>2</sup>*
- c) *6.3.4 ES Cyfrol C - Effeithiau'r prosiect cyfan C4 - Effeithiau traffig ar ansawdd aer<sup>3</sup>*
- d) *6.4.5 ES Cyfrol D - Datblygiad WNDA D5 - Ansawdd aer (ac eithrio allyriadau traffig)<sup>4</sup>*
- e) *6.4.21 ES Cyfrol D - Datblygiad WNDA App D5-2 - Cyfnod Adeiladu'r Prif Safle Asesiad o Effaith Amgylcheddol Gwasgariad Aer - Adroddiad Modelu Terfynol (Ansawdd Aer)<sup>5</sup>*
- f) *6.4.22 ES Cyfrol D - Datblygiad WNDA App D5-3 - Gwasgariad Gweithredol y Prif Safle - Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol - Adroddiad Modelu Gwasgariad yr Allyriadau i'r Aer o Ganlyniad i'r Gwaith Hylosgi Gweithredol (Senarios i Ategu'r Cais DCO)<sup>6</sup>*
- g) *6.5.5 ES Cyfrol E - Cyfleusterau'r Orsaf Bŵer Oddi Ar y Safle: AECC ESL a MEEG E5 - Ansawdd aer<sup>7</sup>*
- h) *6.6.5 ES Cyfrol F - Parcio a Theithio F5 - Ansawdd aer<sup>8</sup>*
- i) *6.7.5 ES Cyfrol G - A5025 Gwelliannau i'r Briffordd All-lein G5 - Ansawdd aer<sup>9</sup>*
- j) *6.8.5 ES Cyfrol H – Canolfan Logisteg H - Ansawdd Aer<sup>10</sup>*
- k) *6.9.10 ES Cyfrol I - Effeithiau cronol App I4-2 - Asesiad ansawdd aer i'r prosiect cyfan ac o fewn prosiect Datblygiad WNDA<sup>11</sup>*

---

<sup>1</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-070

<sup>2</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-083

<sup>3</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-091

<sup>4</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-124

<sup>5</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-140

<sup>6</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-141

<sup>7</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-243

<sup>8</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-270

<sup>9</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-308

<sup>10</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-359

<sup>11</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-394

1.1.3 Mae'r asesiad ansawdd aer hefyd yn cysylltu â phenodau eraill a gynhwysir yn Adroddiad Effaith Lleol CSYM, y dylid cyfeirio ato hefyd, gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol ymysg pethau eraill.

1.1.4 Fel y cadarnhawyd yn ES Pennod B5 – Cyflwyniad i'r asesiadau amgylcheddol – Ansawdd Aer<sup>12</sup>, mae'r ffynonellau a allai allyrru llygryddion aer a llwch sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r Orsaf Bŵer, Cyfleusterau'r Orsaf Bŵer Oddi Ar y Safle a Datblygiadau Cysylltiedig yn cynnwys:

- a) Allyriadau llwch a gynhyrchir gan weithgareddau cysylltiedig â dymchwel, gwaith daear ac adeiladu. Mae'r prif waith adeiladu hefyd yn cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol ac adeileddau morol eraill.
- b) Allyriadau aroglau o gloddio ac adfer mannau sy'n cynnwys halogiad daear yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd a Chyfleusterau'r Orsaf Bŵer Oddi Ar y Safle yn unig.
- c) Allyriadau aroglau o'r gwaith trin carthion presennol ac o gyfleuster parod arfaethedig i drin carthion (Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn unig).
- d) Allyriadau llygryddion i'r aer o beiriannau ac offer adeiladu (peiriannau na allant deithio ar ffyrdd yn bennaf) a llongau.
- e) Allyriadau llygryddion o gerbydau ffordd (e.e. ceir, faniau, bysiau a lorïau) sy'n teithio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

1.1.5 Mae'r ffynonellau llygryddion aer posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Orsaf Bŵer, Cyfleusterau'r Orsaf Bŵer Oddi Ar y Safle a Datblygiadau Cysylltiedig yn cynnwys:

- a) allyriadau llygryddion o weithredu peiriannau hylosgi megis generaduron wrth gefn a boeleri codi stêm; ac
- b) allyriadau llygryddion o gerbydau ffordd sy'n teithio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

1.1.6 Y ffynonellau posibl o lygryddion aer a llwch sy'n gysylltiedig â datgomisiynu'r Orsaf Bŵer, Cyfleusterau'r Orsaf Bŵer Oddi Ar y Safle a'r Datblygiadau Cysylltiedig yw allyriadau llwch a gynhyrchir o weithgareddau datgomisiynu, gan gynnwys dymchwel adeiladau a gwaith daear, ac allyriadau llygryddion o offer, peiriannau, llongau a cherbydau ffordd.

1.1.7 Fel y cadarnhawyd ym mharagraff 5.1.6 ES Cyfrol B – Cyflwyniad i'r asesiadau amgylcheddol B5, y prif lygryddion aer sy'n deillio o'r uchod yw ocsidau nitrogen (NO<sub>x</sub>), nitrogen deuocsid (NO<sub>2</sub>), carbon monocsid (CO), sylffwr deuocsid (SO<sub>2</sub>) a gronynnau sy'n cynnwys PM<sub>10</sub> a PM<sub>2.5</sub> (gronynnau â diamedr aerodynamig o 10 micron neu lai a 2.5 micron neu lai, yn ôl eu trefn). Mae'r asesiad hefyd yn cynnwys y posibilrwydd o ryddhau sylweddau arogleuog a allai achosi annifyrrwch.

1.1.8 Yna, mae paragraff 5.1.7 yn cadarnhau bod y term 'llwch' yn cyfeirio at unrhyw ronynnau gan gynnwys gronynnau solid sydd yn yr aer, neu wedi setlo a dyddodi ar arwyneb ar ôl bod yn yr aer, oherwydd gweithgareddau cysylltiedig ag adeiladu. Mae hyn yn cynnwys y gronynnau llai sy'n gysylltiedig ag effeithiau

---

<sup>12</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-070

posibl ar iechyd (h.y. PM<sub>10</sub> a PM<sub>2.5</sub>), a gronynnau mwy sy'n gysylltiedig ag achosi annifyrrwch neu effeithio ar lystyfiant sensitif os cânt eu dyddodi ar arwyneb.

- 1.1.9 Mae Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer gronynnau, oson, nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid (Diweddariad byd-eang 2005) yn dechrau â'r datganiad: *“Ystyrir bod aer glân yn ofyniad sylfaenol ar gyfer iechyd a lles bodau dynol. Fodd bynnag, mae llygredd aer yn dal i beri bygythiad sylweddol i iechyd ledled y byd.”*<sup>13</sup>
- 1.1.10 Rhoddir dyletswydd ar holl Awdurdodau Lleol Cymru i sicrhau bod Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 (sy'n rhoi Cyfarwyddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchynol Ewrop ar waith)<sup>14</sup> yn cael eu rhoi ar waith a'u dilyn. Mae'r rheoliadau hyn yn manylu targedau penodol ar gyfer gwerthoedd llygryddion hysbys megis sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, bensen, carbon monocsid, plwm, PM<sub>10</sub> a PM<sub>2.5</sub> ymysg eraill.
- 1.1.11 O ran Iechyd a Lles, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>15</sup> yn cynnwys yr amgylchedd o fewn ei saith nod Llesiant. Felly, bydd unrhyw effaith gymedrol negyddol neu effaith niweidiol fawr ar ansawdd aer yn cael effaith niweidiol ar amcanion llesiant Ynys Môn.
- 1.1.12 O ran yr ansawdd aer presennol ar Ynys Môn, fel rhan o'r broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol, mae CSYM yn cynnal adolygiad blynyddol o ansawdd aer yn eu hardal sy'n cynnwys mesur llygryddion allweddol megis nitrogen deuocsid (NO<sub>2</sub>), a gronynnau (PM<sub>10</sub> a PM<sub>2.5</sub>) i ganfod a gyflawnir yr Amcanion Ansawdd Aer ar gyfer nifer o lygryddion.
- 1.1.13 Fel y cadarnhawyd ym mharagraff 5.3.17 dogfen Horizon 6.4.5 – Ansawdd Aer (ac eithrio allyriadau traffig)<sup>16</sup>, mae adroddiadau adolygiad Monitro Ansawdd Aer Lleol CSYM a data eraill gan Horizon wedi cadarnhau bod crynodiadau llygryddion yn yr aer mewn lleoliadau sy'n cynrychioli lleoliadau perthnasol a ddaw i gysylltiad â hwy, megis eiddo preswyl, yn gyfforddus o fewn yr Amcan Ansawdd Aer cymedrig blynyddol (er bod crynodiadau NO<sub>2</sub> yn uwch yn agos iawn at yr A55).
- 1.1.14 Nid yw CSYM wedi datgan unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ac nid oes angen unrhyw asesiadau manwl ar hyn o bryd fel rhan o'r broses Monitro Ansawdd Aer Lleol. Drwy gyfrwng y broses hon, nid yw CSYM wedi canfod dim manau perthnasol a ddaw i gysylltiad â llygryddion sy'n methu â bodloni'r Amcan Ansawdd Aer, nac unman lle gallai hynny ddigwydd, yn ardal Datblygiad Wylfa Newydd nac yn unman arall ar yr ynys.
- 1.1.15 Mae Ffigwr 1 isod yn dangos y lefelau crynodiad nitrogen deuocsid a nodwyd. Mae'n ddigon amlwg bod crynodiadau cefndir Nitrogen Deuocsid yn isel ar Ynys Môn ac yn holl ranbarthau Gogledd Cymru.

---


<sup>13</sup> Canllawiau ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer gronynnau, oson, nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid *Diweddariad byd-eang 2005* Crynodeb o'r asesiad risg ([Dolen](#))

<sup>14</sup> Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 ([Dolen](#))

<sup>15</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ([Dolen](#))

<sup>16</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-124

**Ffigwr 1 - Crynodiadau cymedrig blynyddol NO<sub>2</sub> wedi'u mynegi fel µg m<sup>-3</sup> yn 2015**





(Ffynhonnell <https://uk-air.defra.gov.uk/data/gis-mapping>) <sup>17</sup>

1.1.16 Mae Ffigwr 2 isod yn dangos bod y lefelau PM<sub>10</sub> o dan 13 µg/m<sup>3</sup> ar Ynys Môn. Nododd adroddiad cynnydd 2015 fod canlyniadau cyfarpar monitro wedi bod yn gyson yn is nag amcan cymedrig 24 awr Llywodraeth Cymru o 50µg/m<sup>3</sup> (heb fynd drosto ar dros 35 diwrnod mewn blwyddyn) a'r cymedr blynyddol o 40µg/m<sup>3</sup>.<sup>18</sup>

<sup>17</sup> Data Mapio Cefndir DEFRA ar gyfer awdurdodau lleol – 2015 ([Dolen](#))

<sup>18</sup> Amcanion ansawdd aer cenedlaethol a gynhwysir yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2002 ([Dolen](#))

**Ffigwr 2 - Crynodiadau cymedrig blynyddol Gronynnau (PM<sub>10</sub>) wedi'u mynegi fel  $\mu\text{g m}^{-3}$  yn 2015 <sup>19</sup>**



1.1.17 I ddisgrifio'r waelodlin amgylcheddol ymhellach, cychwynnodd Horizon arolwg monitro ansawdd aer gyda CSYM ym mis Chwefror 2016. Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar NO<sub>2</sub> ac yn cynnwys mesuriadau gwasgariad mewn lleoliadau yng nghyffiniau Ardal Datblygu Wylfa Newydd fel y mae Tabl D5-3 dogfen Horizon 6.4.5 – Ansawdd Aer yn ei gadarnhau. Roedd y data'n cadarnhau bod y crynodiadau cymedrig blynyddol a fesurwyd yn gyfforddus o fewn yr amcan cymedrig blynyddol o 40 $\mu\text{g}/\text{m}^3$ .

<sup>19</sup> Ffynhonnell: Ansawdd Aer yng Nghymru: Mapiau [\(Dolen\)](#)

- 1.1.18 Mae CSYM, fel y cadarnheir ym mharagraff 5.3.21 dogfen Horizon 6.4.5 – Ansawdd Aer<sup>20</sup>, wedi bod yn mesur PM<sub>10</sub> a PM<sub>2.5</sub> yn ardal y datblygiad rhwng mis Mawrth 2013 a mis Ionawr 2014 ac yn Felin Cafnan, lleoliad cyfagos i'r ardal yn 2016. Fel y cadarnheir ym mharagraff 5.3.22 yr un ddogfen, mae'r crynodiadau a fesurwyd yn gyfforddus o fewn yr amcanion cymedrig blynyddol perthnasol ar gyfer PM<sub>10</sub> a PM<sub>2.5</sub> yn ardal y datblygiad.
- 1.1.19 Fel y cadarnhawyd ym mharagraff 5.3.38 dogfen Horizon 6.4.5 – Ansawdd Aer, yn absenoldeb prosiect Wylfa Newydd, mae'n debygol y byddai crynodiadau gwaelodlin PM<sub>10</sub> a PM<sub>2.5</sub> yn y dyfodol yn parhau i ostwng ychydig bach, neu'n sefydlogi ar y crynodiadau presennol. Yn hirdymor, mae'n debygol y byddai crynodiadau NO<sub>2</sub> mewn lleoliadau ar ymyl ffordd yn lleihau wrth i gyfran cerbydau mwy newydd Euro 6/VI a cherbydau eraill ag allyriadau isel neu sero (e.e. cerbydau trydanol) ar y ffordd gynyddu, a chymryd lle cerbydau hŷn ag allyriadau uwch.
- 1.1.20 Mae'r mesuriadau dyddodi llwch a gofnodwyd o gwmpas Ardal Datblygiad Wylfa Newydd yn nodweddiadol i'r lefelau cymharol isel a geir mewn lleoliadau gwledig agored, a byddai'r rhain yn ddigon tebyg i ddyddodiad llwch yn y rhan fwyaf o leoliadau gwledig ar Ynys Môn nad ydynt yn agos at ffynonellau llwch penodol.

## 2.0 Effeithiau a Sail Dystiolaeth

- 2.1 Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r effeithiau a nodwyd gan CSYM. Mae'r angen i gynnal a gwella iechyd a lles cyffredinol y cymunedau sydd o fewn cyffiniau agos y prif safle yn ystod cyfnod adeiladu Prosiect Wylfa Newydd yn fater allweddol.
- 2.2 Ym marn CSYM, mae'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau cadarnhaol o ran ansawdd aer o ganlyniad i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Prosiect Wylfa Newydd.
- 2.3 Mae Horizon yn cadarnhau, gan ddefnyddio'r mesurau lliniaru a bennir yn y strategaethau rheoli ansawdd aer a gynhwysir yn CoCP Wylfa Newydd<sup>21</sup> ac is-CoCP safle'r Brif Orsaf Bŵer<sup>22</sup>, mai'r casgliad yw bod effaith debygol allyriadau llwch ar iechyd ac amwynder pobl yn ystod y cyfnod adeiladu'n ddibwys. Ni all CSYM gytuno â'r casgliad hwn ar hyn o bryd oherwydd diffyg manylder yn y strategaethau rheoli ansawdd aer.
- 2.4 Fel y cadarnhawyd yn ES Pennod B5<sup>23</sup>, mae CSYM wedi mynegi pryderon yn gyson ynglŷn â chynyddiadau posibl o'r prosiect ar grynodiadau PM<sub>2.5</sub> a bod Horizon yn eu hasesiadau'n defnyddio'r amcan ansawdd aer cyfartalog blynyddol o 25µg/m<sup>3</sup> fel y maen prawf asesu

---

<sup>20</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-124

<sup>21</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-414

<sup>22</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-415

<sup>23</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-070



- 2.5 Mae 'StatsCymru' Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau lefel PM<sub>2.5</sub> gyfartalog o 5µg/m<sup>3</sup> ar Ynys Môn yn 2016 – y lefel isaf yng Nghymru yn y flwyddyn hon<sup>24</sup>. Mae hyn hefyd yn llawer is na'r gwerth canllaw blynyddol cyfartalog gan Sefydliad Iechyd y Byd o 10µg/m<sup>3</sup>, ac yn llawer iawn is na gwerth cyfartalog blynyddol Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 o 25µg/m<sup>3</sup>.
- 2.6 Mae Pennod B5 yr ES Ansawdd Aer gan Horizon yn cydnabod bod arweiniad polisi ansawdd aer cenedlaethol yn cyfeirio at gorff o ymchwil sy'n tyfu<sup>25</sup> <sup>26</sup>, sy'n awgrymu bod cysylltiad agos rhwng NO<sub>2</sub> a gronynnau megis PM<sub>2.5</sub> ac effeithiau ar iechyd, ac nad oes digon o dystiolaeth i ddangos bod unrhyw grynodiad yn ddigon isel i osgoi effeithiau ar iechyd yn llwyr.
- 2.7 Mae'r Adroddiad Asesiad Effaith ar Iechyd<sup>27</sup> hefyd yn mynegi pryder am y potensial o effeithiau ar iechyd oherwydd cynnydd mewn crynodiad NO<sub>2</sub> a gronynnau (PM<sub>2.5</sub> a PM<sub>10</sub>), gan ystyried effeithiau'r llygryddion hyn heb drothwy.
- 2.8 Mae Canllawiau Polisi Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru yn nodi nad oes trothwy diogel wedi'i ddiffinio ar hyn o bryd ar gyfer NO<sub>2</sub> a gronynnau (PM<sub>2.5</sub> a PM<sub>10</sub>) ac mai'r isaf yw crynodiadau'r llygryddion hyn, yr isaf yw'r risgiau o effeithiau niweidiol ar iechyd. Maent yn nodi "*Felly, er bod cydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn hanfodol, mae'n ddymunol cadw lefelau llygredd mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.*" ac yn pwysleisio "*Disgwylir i Awdurdodau Lleol weithio tuag at leihau allyriadau a chrynodiadau PM<sub>2.5</sub> yn eu hardal leol lle bo hynny'n ymarferol*".<sup>28</sup>
- 2.9 Mae ES Pennod B5 – Ansawdd Aer yn cadarnhau ym mharagraff 5.4.135 '*Yn unol â'r canllawiau asesu ansawdd aer a dderbynnir [RD11] [RD12], roedd yr asesiad ansawdd aer, a'r penderfyniad ynghylch arwyddocâd, yn seiliedig ar gydymffurfiaid â'r amcanion ansawdd aer gan fod y rhain yn cynrychioli'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol o ran y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer yng Nghymru. I gydnabod y gallai fod risgiau iechyd yn gysylltiedig â chrynodiadau NO<sub>2</sub>, PM<sub>2.5</sub> a PM<sub>10</sub> sy'n is na chrynodiadau'r amcanion, mae'r newidiadau a ragfynegir i ansawdd aer oherwydd gweithgareddau cysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd hefyd wedi cael eu hasesu fel rhan o Adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19). Ystyrir hefyd y risgiau iechyd posibl, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig ag allyrru llwch a gronynnau (PM<sub>2.5</sub> a PM<sub>10</sub>), yn y mesurau lliniaru arfaethedig a nodir yn CoCP Wylfa Newydd (Cyfeirnod Cais: 8.6) a'r is-CoCPau (Cyfeirnodau Cais: 8.7 i 8.12) â'r nod o gadw crynodiadau'r llygryddion hyn at lefel mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol (yn unol â nod yr arweiniad polisi [RD8])*'.
- 2.10 Mae CSYM yn cydnabod bod y mesurau lliniaru arfer da arfaethedig a gynhwysir yn CoCP Wylfa Newydd a'r is-CoCPau yn bwriadu cadw crynodiadau'r llygryddion hyn, gan gynnwys PM<sub>2.5</sub>, mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol, sy'n cyd-fynd â'r arweiniad polisi rheoli ansawdd aer lleol. Mae'r mesurau lliniaru'n

<sup>24</sup> Dangosyddion Ansawdd Aer fesul Awdurdod Lleol 2016, StatsCymru, Llywodraeth Cymru ([Dolen](#))

<sup>25</sup> Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995, Rheoli ansawdd aer lleol yng Nghymru, Canllawiau polisi, PG(W)(17), ([Dolen](#))

<sup>26</sup> Canllawiau Polisi Rheoli Ansawdd Aer Lleol (PG16). Ebrill 2016 Defra: Llundain. ([Dolen](#))

<sup>27</sup> Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-429

<sup>28</sup> Canllawiau Polisi Rheoli Ansawdd Aer Lleol (PG16). Ebrill 2016 Defra: Llundain. ([Dolen](#))

cynnwys ymrwymiad i wneud gwaith monitro parhaus a gosod trothwyon a mecanweithiau priodol i ganfod ardaloedd neu weithgareddau sy'n allyrru gronynnau a chymryd camau pellach i atal neu leihau allyriadau.

- 2.11 Mae CSYM yn gofyn i Horizon fabwysiadu Gwerth Arweiniad cyfartalog blynyddol Sefydliad Iechyd y Byd o  $10\mu\text{g}/\text{m}^3$  fel trothwy i fonitro lefelau  $\text{PM}_{2.5}$  yn ei erbyn. Mae hyn er mwyn sicrhau bod lefelau  $\text{PM}_{2.5}$  yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol er mwyn cydymffurfio â gweledigaeth arweiniad polisi diweddaraf Cymru.
- 2.12 Mae CSYM yn cynnig y dylid monitro drwy gydol y cyfnod adeiladu a lle bo lefelau yng nghyffiniau Wylfa Newydd yn uwch na chymedr cyfartalog Sefydliad Iechyd y Byd o  $10\mu\text{g}/\text{m}^3$  ar gyfer  $\text{PM}_{2.5}$ , y byddai CSYM a Horizon yn dechrau drwy gynnal ymchwiliad ar y cyd o'r hyn a achosodd i'r lefel fod yn rhy uchel. Os ystyrir bod gweithgareddau Horizon wedi cyfrannu at lefelau rhy uchel, yna dylai Horizon baratoi cynllun gweithredu i amlinellu'r holl gamau rhesymol y gellid eu cymryd i leihau allyriadau  $\text{PM}_{2.5}$  a'u rhoi ar waith. Os yw monitro'n dangos lefelau rhy uchel yn parhau ar ôl rhoi'r cynllun gweithredu ar waith, byddai'n rhaid adolygu'r cynllun gweithredu i weld a ellir canfod mesurau ychwanegol neu fesurau eraill. Byddai angen yr adolygiadau hyn unwaith y flwyddyn ar y mwyaf.
- 2.13 Mae CSYM wedi nodi y dylai'r asesiad o allyriadau traffig ffyrdd ystyried lleoliadau perthnasol sy'n dod i gysylltiad â'r allyriadau yn agos at yr A55. Mae disgwyl i draffig ar ffordd yr A55 gynyddu gan ei bod yn rhan o lwybr blaenoriaeth y prosiect. Yn unol â chyngor gan CSYM, cafodd cilfan ar yr A55 yn Llanfairpwll ei chynnwys fel derbynnnydd o fewn asesiad ansawdd aer Horizon.
- 2.14 Fel y cadarnhawyd yn yr ES, Pennod B5, mae crynodiadau  $\text{NO}_2$  wedi dangos gostyngiad cyffredinol ers 2010, a gallai hyn fod yn gysylltiedig â lleihad mewn llifoedd traffig ar yr A55, sydd wedi bod yn lleihau ers 2007.
- 2.15 Fel y cadarnhawyd yn ES Cyfrol C4 Effeithiau traffig ar ansawdd aer, mae CSYM wedi mesur crynodiadau  $\text{NO}_2$  cymedrig blynyddol o  $39.7\mu\text{g}/\text{m}^3$  mewn cilfan oddi ar yr A55 yn Llanfair Pwllgwyngyll yn 2016 (yn agos at dderbynnnydd R36). Y crynodiad gwaelodlin a ragfynegir yn y dyfodol ar ymyl agosaf y gilfan i ffordd yr A55 yn 2020 yw  $39.4\mu\text{g}/\text{m}^3$ , a rhagfynegir y bydd hwn yn cynyddu i  $40.8\mu\text{g}/\text{m}^3$  oherwydd allyriadau traffig Prosiect Wylfa Newydd (R36). Mae Asesiad Horizon yn nodi bod y gwerthoedd hyn yn llawer is na'r gwerth  $60\mu\text{g}/\text{m}^3$  a gafwyd yn empirig ac felly wedi dod i'r casgliad ei bod yn annhebygol iawn yr aiff y lefelau'n uwch na'r amcan ansawdd aer cymedrig un awr.
- 2.16 Mae CSYM yn gofyn i Horizon ymrwymo i osod systemau monitro yn lleoliad y gilfan (lleoliad monitro A15) fel y gellir monitro'r amcan ansawdd aer cymedrig un awr ar gyfer  $\text{NO}_2$  mewn amser real i weld a aiff y lefel yn rhy uchel o ganlyniad i draffig ychwanegol. Bydd CSYM yn defnyddio'r canlyniadau monitro hyn i ystyried a oes angen rhoi mesurau ar waith yn y lleoliad hwn fel rhan o'u cyfrifoldebau parhaus dros ansawdd aer. Mae CSYM yn cynnig y dylid defnyddio dyfais fonitro math AQ Mesh i wneud y monitro hwn. Gall data monitro fel hyn fod ar gael bron mewn amser real. Dylid cyfleoli tiwbiau tryledu, i fesur y cymedrau misol yn ddibynadwy, gyda'r dyfeisiau AQ Mesh.

- 2.17 Mae asesiadau ansawdd aer Horizon hefyd yn cadarnhau bod mesuriadau a gymerwyd mewn cilfan sy'n agos iawn at ymyl yr A55 (tua'r dwyrain) i'r de-ddwyrain o Bont Britannia yn dangos y gallai'r crynodiadau cymedrig blynyddol fynd dros  $60\mu\text{g}/\text{m}^3$  (ES Rhifyn C)<sup>29</sup>. Ar sail hyn, mae'n bosibl y gellid mynd dros y gwerth amcan ansawdd aer cymedrig un awr o  $200\mu\text{g}/\text{m}^3$  fwy na'r 18 gwaith a ganiateir yn y flwyddyn yn y lleoliad cyswllt tymor byr hwn. Mae'r ES yn cadarnhau y cynllunnir cyfarfod ymgynghori pellach gyda Chyngor Gwynedd i adolygu'r set gyflawn o ddata monitro cyn gynted â bod 12 mis o ddata wedi'u cofnodi ac i gytuno ar waith monitro ac asesu pellach. Hoffai CSYM sicrhau bod y cynigion monitro ar gyfer pob lleoliad cilfan yn gyson gan gynnwys defnyddio cyfarpar monitro ac maent yn gofyn am gadarnhad o'r manylion.
- 2.18 Yn ystod cyfnod cychwynnol y gwaith daear a'r gwaith Morol (blwyddyn 1 i Flwyddyn 2), fel y mae senario'r gwaith morol a gwaith daear Blwyddyn 2 yn ei gynrychioli, mae'r risg o effeithiau arwyddocaol yn seiliedig ar y crynodiadau  $\text{NO}_2$  a ragwelir mewn derbynyddion unigol, a chynigir mesurau lliniaru ychwanegol i roi sylw uniongyrchol i'r effaith a nodwyd yn adran 5.6 6.4.5 ES D5 Ansawdd Aer sy'n nodi y byddai Horizon yn datblygu cynllun cynhwysfawr ar gyfer rheoli, monitro ac adrodd am ansawdd aer mewn trafodaeth gyda CSYM a CNC, gan gynnwys cytuno ar drothwyon a meini prawf cyrhaeddiad ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaid â'r safonau amgylcheddol priodol. Cadarnheir y byddai hyn yn cynnwys modelu ac asesu ychwanegol lle bo angen.
- 2.19 Mae CSYM yn cydnabod bod manylion cryno am y strategaeth fonitro arfaethedig wedi'u cynnwys yn is-CoCP Safle'r Brif Orsaf Bŵer Cyfernod Dogfen. Mae CSYM yn mynnu bod manylion pellach yn cael eu hamlinellu yn y CoCP a'r is-CoCPau ynglŷn â manylion y strategaeth fonitro gan gynnwys manylion pellach am y canlynol:
- Manylion pellach am y system amgylcheddol amser-real ar y we gan gynnwys rheoli data a mynediad
  - Lleoliad arfaethedig cyfarpar monitro ar gyfer  $\text{PM}_{10}$ ,  $\text{PM}_{2.5}$ ,  $\text{NO}_x$ ,  $\text{NO}_2$  a dyddodi llwch
  - Cadarnhad o'r trothwyon a'r lefelau sbarduno gormodiant ar gyfer llwch,  $\text{NO}_2$ ,  $\text{NO}_x$ ,  $\text{PM}_{2.5}$  a  $\text{PM}_{10}$ , ac amllder yr adroddiadau (gan gynnwys lefelau sbardun ambr a choch)
  - Y broses o ymchwilio i ormodiant sbardunau a sut y caiff CSYM wybod am hyn
  - Manylion pellach am y broses o dderbyn cwynion, eu hymchwilio ac ymateb iddynt
  - Manylion pellach am y Grwpiau Cyswllt Cymunedol arfaethedig gan gynnwys amllder y cyfarfodydd. Mae CSYM o'r farn y dylid cynnal y cyfarfodydd hyn yn fisol hyd at y Concrit Niwclear Cyntaf
- 2.20 Yn ystod cyfarfodydd Datganiad Tir Cyffredin, mae CSYM wedi trafod y manylion uchod â Horizon ac wedi gofyn am iddynt gael eu cynnwys mewn fersiynau newydd o CoCP Wylfa Newydd a'r is-CoCPau a'u cyflwyno i'r broses archwilio.

<sup>29</sup> Prosiect Wylfa Newydd 6.3.4 ES Cyfrol C - Effeithiau'r prosiect cyfan C4 - Effeithiau traffig ar ansawdd aer Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-091

- 2.21 Hefyd, yn ystod cyfarfodydd Datganiad Tir Cyffredin mae CSYM wedi gwneud sylwadau am gynigion lliniaru ychwanegol Horizon sy'n cynnwys ymrwymiad i ddefnyddio canran uwch o beiriannau adeiladu mwy newydd sy'n cydymffurfio â gofynion mwy caeth ar allyriadau. Mae CSYM wedi gofyn am i'r mesurau lliniaru ychwanegol hyn gael eu cynnwys mewn fersiynau newydd o'r CoCP a'r is-CoCPau a'u cyflwyno i'r broses archwilio.
- 2.22 Mae CSYM wedi gwneud cais am i'r Grŵp Cyswllt Cymunedol gyfarfod yn fisol yn hytrach nag yn chwarterol fel y cynigiodd Horizon o ddechrau'r gweithgareddau ar y safle hyd at arllwys y concrit Niwclear Cyntaf, sef y cyfnod pan fydd effeithiau ansawdd aer a sŵn yn debygol o fod ar eu mwyaf. Mae CSYM o'r farn mai dyma'r fforwm i'w ddefnyddio i sicrhau bod y gymuned leol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf lawn am y gweithgareddau ar y safle, gan gynnwys deall y gwaith a gynllunnir a chael gwybod am unrhyw weithgareddau a allai effeithio ar eu bywyd a'u harferion bob dydd.
- 2.23 Bydd angen cytuno ar Strategaeth Rheoli Ansawdd Aer ar wahân ar gyfer y cyfnod datgomisiynu gan gynnwys mesurau a chanllawiau arfer da a fyddai'n berthnasol ar adeg y datgomisiynu.
- 2.24 Bydd canlyniadau monitro dyddodion llwch yn ôl-weithredol (oherwydd yr amser a gymerir i samplu (mis) a chael canlyniadau o'r labordy). Gallai llwch sydd wedi dyddodi ar y mesurydd fod wedi digwydd rhwng oddeutu dwy a chwech wythnos yn gynharach. Mae Horizon yn teimlo y dylai'r trothwyon llwch fod yn seiliedig ar y lefel wledig 'gwlad agored' gan Vallack a Shillito yn hytrach na'r gwerthoedd sbardun is a awgrymwyd gan CSYM. Felly, oherwydd yr oediad amser hwn wrth fonitro dyddodiad llwch a llunio adroddiadau, disgwylir i Horizon ddefnyddio system monitro amgylcheddol ar y we mewn llawer o leoliadau o gwmpas safle datblygiad Wylfa Newydd i ddarparu data amser real i ddatrys y broblem hon â monitro ôl-weithredol. Bydd y data ar gael i CSYM ar gais a darperir mynediad ar y we i CSYM i ganiatáu monitro rheoleiddio i sicrhau y cedwir at unrhyw safonau ansawdd aer sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn.

### **3.0 Safbwynt Polisi**

- 3.1 Mae maen prawf 1 Polisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig, sef y Polisi cyffredinol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, yn disgwyl y bydd y cynnig yn bodloni unrhyw Bolisiau perthnasol yn y Cynllun ac unrhyw ganllawiau cynllunio atodol perthnasol.
- 3.2 Yn seiliedig ar y materion a godwyd yn y Bennod hon o'r Asesiad Effaith Lleol, mae'r gofynion a amlinellir ym meini prawf 8, 13 ac 16 Polisi PS 9 yn arbennig o berthnasol:
- 3.3 Mae maen prawf 8 yn disgwyl i sut mae'r cynllun yn cael ei gynllunio a'i ddyluniad osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am amrywiaeth o effeithiau ar yr ardal leol ac ehangach, yn y tymor byr a'r tymor hirach. Mae'r amrywiaeth o effeithiau'n cynnwys effeithiau ecolegol.
- 3.4 Mae maen prawf 13 yn nodi disgwyliad i wrthbwysu a digolledu'r gymuned am y baich a'r tarfu sy'n digwydd drwy fod yn lleoliad i'r prosiect.

- 3.5 Mae maen prawf 16 yn nodi disgwyliad i'r datblygwr gynnwys mecanweithiau adolygu er mwyn monitro'r amrediad llawn o effeithiau, adolygu pa mor ddigonol yw mesurau lleddfu neu ddigolledu, a gwneud newidiadau fel bydd angen.
- 3.6 Yng ngoleuni'r materion a godwyd yn y Bennod hon o'r Asesiad Effaith Lleol, mae angen ystyried gofynion y Polisiâu canlynol:
- a) Mae prawf 7 Polisi PCYFF 2, sy'n nodi y gwrthodir datblygiad os bydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, dreiniau, llygredd golau, neu ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch.
  - b) Mae Polisi ISA 1 Darpariaeth isadeiledd yn nodi y bydd disgwyl cyfraniad ariannol i sicrhau gwelliannau (yn amodol ar y profion perthnasol), gan gynnwys gwaith cysylltiedig, os yw'r rheini yn angenrheidiol i wneud cynnig yn dderbyniol.
  - c) Mae'r CCA yn rhoi cyngor manwl am gymhwyso Polisiâu'r Cydgynllun Datblygu Lleol mewn perthynas â phrosiect Wylfa Newydd. Mae'r amcan canlynol a'r Egwyddorion Arweiniol (EA) yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun y Bennod hon:
  - d) Mae Amcan 4 CCA Wylfa Newydd yn cadarnhau bod angen sicrhau bod Prosiect Wylfa Newydd yn cefnogi gwella ansawdd bywyd (gan gynnwys iechyd, tai, llesiant ac amwynder) preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr yn Ynys Môn yn ystod y cyfnod y bydd yn cael ei adeiladu a'i weithredu.
  - e) Yna, mae paragraff 3.2.5 yn ehangu i ddweud y cyflawnir hyn drwy (i) Sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r effeithiau o ran sŵn, dirgryndod, amwynder gweledol ac ansawdd aer sy'n codi wrth adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd drwy fesurau lliniaru priodol;
  - f) EA7 Gwarchod iechyd, sy'n egluro'r disgwyliadau o ran y mesurau lliniaru sy'n arbennig o berthnasol i'r materion a godwyd yn y Bennod hon yn yr Asesiad Effaith Lleol:
    - i. Darparu gwybodaeth am beryglon iechyd i gymunedau lleol, ymwelwyr a busnesau;
    - ii. Dyluniad ffisegol datblygiadau newydd (gan gynnwys ystyriaeth i fesurau sgrinio a chyfyngu, a threfnu datblygiadau fel eu bod yn cael yr effeithiau lleiaf posibl ar dderbynwyr sensitif);
    - ii. Mesurau lliniaru ar gyfer y rheini a fydd yn teimlo effeithiau (gan gynnwys insiwleiddio i leihau effeithiau sŵn) neu gydbwyso pan nad yw lliniaru yn ymarferol;
    - iv. Mesurau i gyfyngu oriau gwaith a rheoli traffig ar gyfer y camau adeiladu a gweithredu;
    - v. Monitro effeithiau posibl gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â sŵn, ansawdd aer a llygredd golau;
    - vi. Cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd newydd neu wella gwasanaethau presennol, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn unol ag EA6.
  - g) Mae elfennau eraill ar EA7 hefyd yn arbennig o berthnasol, gan sôn am iechyd ac amwynder gweithwyr adeiladu ar y prif safle, a disgwyliadau CSYM o ran

gofynion/ amodau DCO i unioni unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar iechyd. Darperir rhestr o'r gofynion/ amodau posibl:

- i. Cyfyngu ar gyfanswm y symudiadau gan gerbydau bob dydd a symudiadau yn ystod y cyfnodau prysuraf;
  - ii. Terfynau ar bwysau traffig adeiladu;
  - iii. Cyfeirio traffig;
  - iv. Oriau adeiladu/gweithredu;
  - v. Trefn y gweithrediadau adeiladu;
  - vi. Rheoli sŵn, llwch ac aroglau; ac
  - vii. Ymgynghori â chymunedau ar faterion/gweithgareddau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar amwynder (gan gynnwys llygredd golau).
- h) Mesurau posibl i sicrhau iechyd a lles gweithwyr, gan gynnwys polisi iechyd corfforaethol a rhannu gwybodaeth am iechyd a diogelwch â'r gweithwyr.
- i) EA26 Gweithredu a monitro, sy'n nodi y disgwylir fframwaith monitro cadarn a fydd yn cynnwys monitro'r lefelau golau sy'n cyrraedd derbynyddion sensitif, megis trigolion a derbynyddion ecolegol.

#### **4.0 Bylchau yn y wybodaeth**

4.1 Yn seiliedig ar yr hyn y mae CSYM yn ei wybod am y safle a'i gyffiniau, y waelodlin bresennol a'r wybodaeth a ddarparwyd gan Horizon yn eu hasesiad, mae nifer o fylchau yn y wybodaeth wedi'u canfod fel yr amlinellir isod;

- a. Mae CSYM yn gofyn am baratoi a chyflwyno fersiynau diwygiedig o CoCP Wylfa Newydd a'r is-CoCPau yn ystod y broses archwilio. Dylai'r CoCP a'r is-CoCPau manwl gynnwys y wybodaeth ganlynol:
  - i. Manylion pellach am y system amgylcheddol amser-real ar y we gan gynnwys rheoli data a mynediad
  - ii. Lleoliadau arfaethedig cyfarpar monitro ar gyfer PM<sub>10</sub>, PM<sub>2.5</sub>, NO<sub>x</sub>, NO<sub>2</sub> a dyddodi llwch
  - iii. Cadarnhad o'r trothwyon a'r lefelau sbarduno gormodiant ar gyfer llwch, NO<sub>2</sub>, NO<sub>x</sub>, PM<sub>2.5</sub> a PM<sub>10</sub>, ac amllder yr adroddiadau (gan gynnwys lefelau sbardun ambr a choch)
  - iv. Y broses o ymchwilio i ormodiant sbardunau gan ymgynghori â CSYM
  - v. Manylion pellach am y broses o dderbyn cwynion, eu hymchwilio ac ymateb iddynt
  - vi. Manylion pellach am y Grwpiau Cyswllt Cymunedol arfaethedig gan gynnwys amllder y cyfarfodydd. Mae CSYM o'r farn y dylid cynnal y cyfarfodydd hyn yn fisol hyd at y Concrit Niwclear Cyntaf
- a) Hefyd, yn ystod cyfarfodydd Datganiad Tir Cyffredin mae CSYM wedi gwneud sylwadau am gynigion lliniaru ychwanegol Horizon sy'n cynnwys ymrwymiad i ddefnyddio peiriannau adeiladu mwy newydd sy'n cydymffurfio â gofynion mwy caeth ar allyriadau. Mae CSYM wedi gofyn am i'r mesurau lliniaru ychwanegol hyn gael eu cynnwys mewn fersiynau newydd o'r CoCP a'r is-CoCPau a'u cyflwyno i'r broses archwilio
- b) Dylai Horizon ddefnyddio system monitro amgylcheddol ar y we mewn llawer o leoliadau o gwmpas safle datblygiad Wylfa Newydd i ddarparu data amser real i ddatrys y broblem hon â monitro ôl-weithredol

- c) Bydd angen i CoCP Wylfa Newydd gadarnhau y cytunir ar Strategaeth Rheoli Ansawdd Aer ar wahân ar gyfer y cyfnod datgomisiynu gan gynnwys mesurau a chanllawiau arfer da a fyddai'n berthnasol ar adeg y datgomisiynu.
- d) Mae CSYM yn gofyn i Horizon fabwysiadu Gwerth Arweiniad cyfartalog blynyddol Sefydliad Iechyd y Byd o  $10\mu\text{g}/\text{m}^3$  fel trothwy i fonitro lefelau  $\text{PM}_{2.5}$  yn ei erbyn. Mae hyn er mwyn sicrhau bod lefelau  $\text{PM}_{2.5}$  yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol er mwyn cydymffurfio â gweledigaeth arweiniad polisi diweddaraf Cymru. Mae CSYM yn cynnig y dylid monitro drwy gydol y cyfnod adeiladu a lle bo lefelau yng nghyffiniau Wylfa Newydd yn uwch na chymedr cyfartalog Sefydliad Iechyd y Byd o  $10\mu\text{g}/\text{m}^3$  ar gyfer  $\text{PM}_{2.5}$ , y byddai CSYM a Horizon yn dechrau drwy gynnal ymchwiliad ar y cyd o'r hyn a achosodd i'r lefel fod yn rhy uchel. Os ystyrir bod gweithgareddau Horizon wedi cyfrannu at lefelau rhy uchel, yna dylai Horizon baratoi cynllun gweithredu i amlinellu'r holl gamau rhesymol y gellid eu cymryd i leihau allyriadau  $\text{PM}_{2.5}$  a'u rhoi ar waith. Os yw monitro'n dangos lefelau rhy uchel yn parhau ar ôl rhoi'r cynllun gweithredu ar waith, byddai'n rhaid adolygu'r cynllun gweithredu i weld a ellir canfod mesurau ychwanegol neu fesurau eraill. Byddai angen yr adolygiadau hyn unwaith y flwyddyn ar y mwyaf.
- e) Mae CSYM yn gofyn i Horizon ymrwymo i osod systemau monitro yn lleoliad y gilfan (lleoliad monitro A15) fel y gellir monitro'r amcan ansawdd aer cymedrig un awr ar gyfer  $\text{NO}_2$  mewn amser real i weld a aiff y lefel yn rhy uchel o ganlyniad i draffig ychwanegol.
- f) Mae CSYM wedi gwneud cais am i'r Grŵp Cyswllt Cymunedol gyfarfod yn fisol yn hytrach nag yn chwarterol fel y cynigiodd Horizon o ddechrau'r gweithgareddau ar y safle hyd at arllwys y concrit Niwclear Cyntaf, sef y cyfnod pan fydd effeithiau ansawdd aer a sŵn yn debygol o fod ar eu mwyaf. Mae CSYM o'r farn mai dyma'r fforwm i'w ddefnyddio i sicrhau bod y gymuned lleol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf lawn am y gweithgareddau ar y safle, gan gynnwys deall y gwaith a gynllunnir a chael gwybod am unrhyw weithgareddau a allai effeithio ar eu bywyd a'u harferion bob dydd.

## 5.0 Rhwymedigaethau a gofynion DCO

- 5.1 Bydd yn ofynnol i CSYM fodloni'r swyddogaethau monitro amgylcheddol sy'n angenrheidiol ar gyfer y datblygiad cymhleth ac amrywiol hwn. Bydd y swyddogaethau hyn yn cynnwys, ymysg eraill, mynychu cyfarfodydd cyswllt â'r gymuned, ymateb i gwynion ynglŷn ag ansawdd aer a llwch naill ai yn uniongyrchol i CSYM gan drigolion neu gan fusnesau, dadansoddi data ac adroddiadau ansawdd aer a llwch sy'n gysylltiedig ag unrhyw systemau monitro amgylcheddol a chynorthwyo Horizon â chwynion am ansawdd aer a llwch a wneir yn uniongyrchol iddynt hwy. O ystyried natur amrywiol, graddfa a chwmpas datblygiad Wylfa Newydd ledled Ynys Môn, bydd y galw posibl ar yr adran Gwarchod y Cyhoedd i ddarparu'r cymorth hwn yn creu baich ychwanegol ar yr adran.
- 5.2 Ceisir cyfraniad ariannol at ariannu'r gwaith o fonitro effeithiau'r datblygiad gan Horizon ar gyfer holl gyfnod adeiladu Wylfa Newydd er mwyn ariannu:
  - a) 1x Swyddog Iechyd Amgylcheddol cywerth ag amser llawn ac
  - b) 1x Swyddog Iechyd Amgylcheddol Graddedig cywerth ag amser llawn